# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 52
29/03/21

## Y Groes

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori




## Fersiwn Beibl.net



Roedd dau ddyn arall oedd yn droseddwyr yn cael eu harwain allan i gael eu dienyddio gyda Iesu. Felly ar ôl iddyn nhw gyrraedd y lle sy'n cael ei alw 'Y Benglog', dyma nhw'n hoelio Iesu ar groes, a'r ddau droseddwr arall un bob ochr iddo. Ond yr hyn ddwedodd Iesu oedd, "Dad, maddau iddyn nhw. Dŷn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud." A dyma'r milwyr yn gamblo i weld pwy fyddai'n cael ei ddillad.

Roedd y bobl yno'n gwylio'r cwbl, a'r arweinwyr yn chwerthin ar ei ben a'i wawdio. "Roedd e'n achub pobl eraill," medden nhw, "felly gadewch iddo'i achub ei hun, os mai fe ydy'r Meseia mae Duw wedi'i ddewis!"



Roedd y milwyr hefyd yn gwneud sbort am ei ben. Roedden nhw'n cynnig gwin sur rhad iddo ac yn dweud, "Achub dy hun os mai ti ydy Brenin yr Iddewon!" Achos roedd arwydd uwch ei ben yn dweud: DYMA FRENIN YR IDDEWON.

Yna dyma un o'r troseddwyr oedd yn hongian yno yn dechrau'i regi: "Onid ti ydy'r Meseia? Achub dy hun, a ninnau hefyd!" Ond dyma'r troseddwr arall yn ei geryddu. "Does arnat ti ddim ofn Duw a thithau ar fin marw hefyd? Dŷn ni'n haeddu cael ein cosbi am yr hyn wnaethon ni. Ond wnaeth hwn ddim byd o'i le."

Yna meddai, "Iesu, cofia amdana i pan fyddi di'n teyrnasu."

Dyma Iesu'n ateb, "Wir i ti – cei di ddod gyda mi i baradwys heddiw."


Roedd hi tua chanol dydd erbyn hyn, ac aeth yn hollol dywyll drwy'r wlad i gyd hyd dri o'r gloch y p'nawn. Roedd fel petai golau'r haul wedi diffodd! Dyna pryd wnaeth y llen hir oedd yn hongian yn y deml rwygo yn ei hanner. A dyma Iesu'n gweiddi'n uchel, "Dad, dw i'n rhoi fy ysbryd yn dy ddwylo di," ac ar ôl dweud hynny stopiodd anadlu a marw.

Pan welodd y capten milwrol oedd yno beth ddigwyddodd, dechreuodd foli Duw a dweud, "Roedd y dyn yma'n siŵr o fod yn ddieuog!" A phan welodd y dyrfa oedd yno beth ddigwyddodd, dyma nhw'n troi am adre'n galaru. Ond arhosodd ei ffrindiau agos i wylio o bell beth oedd yn digwydd – gan gynnwys y gwragedd oedd wedi'i ddilyn o Galilea.

*Luc 23:32-49 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Pan gafodd Iesu ei groeshoelio roedd yna dau ddyn arall yn cael eu croeshoelio hefyd. Roedden nhw wedi troseddu ac yn cael eu cosbi. Roedd y milwyr yn eistedd o gwmpas yn gamblo am ddillad Iesu i basio amser.



Dyweddodd Iesu, "Dad maddau iddyn nhw oherwydd dydyn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud." Clywodd y dau ddyn hyn a gofynodd un i Iesu, "Os mai ti yw'r Meseia, pam na wnei di achub dy hun a ninnau hefyd?"

Dywedodd y dyn arall, "Bydd ddistaw, dan ni yn haeddu cael ein cosbi ond dydy o ddim wedi gwneud unrhyw beth o'i le." Yna trodd at Iesu a dywedodd, "Iesu, cofia amdanaf fi pan fyddi di'n teyrnasu." Atebodd Iesu "Does dim rhaid i ti aros. Gei di ddod gyda mi i baradwys heddiw."

# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:




1. Oes yna rywun wedi gwneud hwyl am dy ben rhyw dro? Sut oeddet ti'n teimlo?
2. Pam oedd y bobl wrth y groes yn gwneud hwyl am ben Iesu?
3. Sut mae hyn yn gwneud i ti deimlo?
4. Wyt ti'n meddwl fod yr hyn ddigwyddodd i Iesu'n deg?


# Stori i'w lliwio

# Y Lleidr ar y Groes

www.lambsongs.co.nz    Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)    Lluniau: Richard Gunther




**Gwelodd a chlywodd dau leidr bopeth ddigwyddodd pan gafodd Iesu ei groeshoelio. Fe wnaeth un edifarhau a chael ei achub.**




**Cafodd Iesu ei groeshoelio rhwng dau ddyn drwg oedd yn cael eu cosbi am ddwyn pethau pobl eraill.**




**Hoeliodd filwr Rhufeinig eiriau ar y groes uwchben Iesu. Dyma oedd y geiriau, "Dyma Frenin yr Iddewon."**



**Ymgrymodd rhai pobl yn y dyrfa i Iesu a gwneud hwyl am ei ben gan ddweud, "Wnaeth o achub eraill felly dewch i ni ei weld o'n achub ei hun, os mai ef ydy'r Meseia a addawyd gan Dduw."**



**Dywedodd un o'r dynion drwg wrth Iesu, " Os mai ti ydy'r Crist sydd wedi ei addo, yna achuba dy hun a ninnau hefyd."**



**Roedd y lleidr arall yn difaru am yr holl bethau drwg roedd wedi eu gwneud. "Mae Duw yn gwybod ein bod ni'n haeddu ein cosbi am y pethau drwg rydan ni wedi eu gwneud ond dydy Iesu ddim wedi gwneud unrhyw beth o'i le."**



**"Iesu, cofia fi pan wnei di ddod i dy deyrnas,"meddai'r lleidr.  Atebodd Iesu, "Dwi'n dweud y gwir wrthyt ti y byddi di heddiw gyda mi ym mharadwys."**



**Cafodd y lleidr faddeuant a llanwyd ei galon â heddwch a llawenydd oherwydd ei fod wedi credu mai Iesu oedd y Meseia, Mab Duw.**

# Gweddi fer



O Dduw, mae'r hanes am beth ddigwyddodd i Iesu ar y groes mor drist!
Mae'n ddrwg gen i am y pethau drwg rydw i'n eu gwneud neu eu meddwl.
Plîs maddau i mi.
Amen.

# Sialensau

## Creu croes


Beth am fynd ati i greu croes? Buaset yn gallu defnyddio paent i greu croes ôl bysedd, neu ddefnyddio 2 bren lolipop a'u haddurno gyda phinnau ffelt, neu gasglu brigau tenau a'u clymu gyda darn o linyn.








Fedri di feddwl am bethau rydyn ni'n eu colli/methu weithiau? Dyma rai enghreifftiau - llunia dy syniadau isod.







Defnyddia frics pren neu Lego i greu llwybr i Iesu ei gerdded wrth iddo gario ei groes i Golgotha.

# Canu

Iesu, dwi'n cael fy atgoffa gan dy groes
Am faint rwyt Ti'n fy ngharu i;
roeddet Ti'n barod i gymryd y gosb
i achub plentyn fel fi.

O Arglwydd, dyma fy nghân:
Diolch Iesu am fy ngwneud i'n lân.
Am byth mwy byddaf yn ffrind i Ti
oherwydd Calfarî.

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*



Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/SiGJs9tBpY4

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes ahughes@saintygymuned.org

# Posau


Mae un groes yn wahanol i'r croesau eraill. Pa un?
Lliwia'r groes sy'n wahanol.



Cysyllta'r geiriau croes â'i gilydd

| | |
|---|---|
| **Du** | **Gelyn** |
| **Da** | **Nos** |
| **Hapus** | **Gwyn** |
| **Ffrind** | **Caled** |
| **Poeth** | **Cas** |
| **Meddal** | **Drwg** |
| **Caredig** | **Oer** |
| **Dydd** | **Trist** |

Dilyna'r llinellau i ddod o hyd i air pwysig.




Fedri di ail drefnu'r teils i ddod o hyd i'r adnod?

**gwbl anobeith** | **Meseia yn** | **adnod 6** | **son ni**

**ni, dyma'r** | **Pan oe** | **rai drwg!** | **iol arnon**

**niaid 5** | **n i farw dro** | **dd pethau'n**

**adeg iaw** | **dod ar yr** | **Rhufei**

# Gweddi Greadigol

## Iesu'n maddau

Beth sy'n digwydd fel arfer os ydyn ni'n gwneud rhywbeth na ddylen ni?
Rydyn ni'n cael cosb.



Os wyt ti'n gas gyda dy frawd neu dy chwaer efallai mai'r gosb fyddai mynd i dy wely'n gynnar.

Neu os wyt ti heb wneud dy waith ysgol, efallai mai'r gosb fyddai gorfod ei wneud amser chwarae.

Meddylia pe bai rhywun arall yn fodlon cymryd y gosb yn dy le!

Pan aeth Iesu i'r groes, dyma wnaeth O. Cymryd y gosb yn ein lle.



Cymerodd Iesu'r gosb am yr holl bethau drwg rydyn ni wedi eu gwneud.



Pan fyddwn ni'n dweud 'sori' wrth Iesu am y pethau drwg rydyn ni wedi eu gwneud, mae Iesu'n maddau i ni, ac rydyn ni'n cael bod yn ffrindiau gyda Duw.

**Meddwl ...**
Mae Iesu yn dy garu gyda chariad anferthol!
Cymera funud i feddwl am rywbeth rwyt ti eisiau dweud 'Sori' wrth Dduw amdano.
Gofynna i Iesu faddau i ti.
Dyweda 'diolch' wrth Iesu am ei gariad anferthol.




## Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/0m92QKhfppc

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/SiGJs9tBpY4





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=HL8R158Ujp4

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | T | R | M | A | DD | A | U | B | U | CH | A |
| E | U | L | B | O | P | M | I | L | W | Y | R |
| W | S | B | R | E | N | I | N | Y | R | B | W |
| I | E | P | U | M | O | I | L | Y | W | G | E |
| S | I | A | A | G | A | R | U | O | D | I | I |
| CH | LL | R | A | I | E | S | E | M | I | DD | N |
| W | W | A | H | T | A | I | R | G | E | I | W |
| LL | A | D | A | N | R | D | U | W | U | E | Y |
| Y | N | W | R | I | B | S | O | C | O | W | R |
| W | T | Y | R | F | A | N | DD | T | G | G | W |
| Y | E | S | E | O | R | C | T | R | I | S | T |
| T | H | O | E | L | I | O | R | D | I | E | LL |

ACHUB
ARWEINWYR
BRENIN
BRYN
COSBI
CROES
DEWIS
DIEUOG
DUW
GWEIDDI
GWYLIO
HOELIO
IESU
IDDEWON
LLEIDR
MADDAU
MARW
MESEIA
MILWYR
PARADWYS
POBL
TAIR
TEYRNASU
TRIST
TYRFA
TYWYLLWCH

# Rysáit

## Bisgedi “Croes”

**Cynhwysion**

- 100g o siwgr muscovado ysgafn
- 200g o fenyn meddal, ac ychydig yn ychwanegol ar gyfer iro’r hambyrddau pobi
- 250g o flawd plaen
- 2 lwy de o bowdr pobi
- 1 wy
- 1 llwy de o sinamon
- 200g o sglodion siocled gwyn bychan
- 100g o swltanas





**Dull**

- Cynhesa’r popty i dymheredd o 180C/160C ffan/nwy 4. Ira ychydig o hambyrddau pobi yn ysgafn â menyn.
- Mewn bowlen fawr, cura’r siwgr, menyn a’r wy nes bod y gymysgedd yn llyfn.
- Rhidylla’r blawd, y sinamon a’r powdr codi i’r gymysgedd i wneud toes.
- Yna ychwanega’r swltanas a 100g o’r sglodion siocled gwyn bychan a’u gweithio i mewn i’r toes.
- Rholia lympiau o’r toes yn belenni yr un faint â pheli golff ac yna pwysa nhw’n fflat ar yr hambyrddau pobi. Cofia adael digon o le rhwng y peli toes er mwyn iddynt gael lle i ledaenu.
- Poba nhw am 10 munud nes eu bod yn euraidd. Tynna’r bisgedi oddi ar yr hambyrddau a’u rhoi i oeri ar raciau weiren.
- Todda weddill y siocled gwyn mewn bowlen dros sosbenaid o ddŵr cynnes. Defnyddia lwy de neu fag peipio bychan i roi croes ar ben pob bisgeden. Rhaid gadael i’r siocled gwyn galedu cyn bwyta’r bisgedi.





# Gemau

## Gêm y Groes



**Byddi angen:**


- Cwpanau plastig - dau liw gwahanol
- Peli ping pong

Gosoda’r cwpanau ar siâp croes ac amgylchyna nhw â chwpanau eraill fel y gweli di yn y llun.

**Sut i chwarae:**

- Bydd angen i’r chwaraewyr sefyll pellter rhesymol i ffwrdd o’r cwpanau
- Cymerwch eich tro i daflu’r peli i mewn i’r cwpanau
- Os y byddwch yn cael pêl i mewn i gwpan yn y groes, byddwch yn sgorio 10 pwynt.
- Os y byddwch yn cael pêl i mewn i un o’r cwpanau eraill, byddwch yn sgorio 5 pwynt.

Gadewch i ni weld pwy all sgorio’r nifer fwyaf o bwyntiau.



## Ras newid dillad

**Byddi angen:**

- Pentwr o ddillad: trowsus, crys-t, sanau, het, côt, menig, sgidiau – digon mawr i ffitio pob person sy’n chwarae
- Amserydd

**Sut i chwarae:**

- Rho’r dillad mewn pentwr yn un pen i’r ystafell.
- Mae’r chwaraewyr yn sefyll y pen arall i’r ystafell.
- Mae’r chwaraewr cyntaf yn rhedeg at y pentwr dillad ac yn gwisgo bob un.
- Mae’n dod yn ôl a thynnu’r dillad i’r person nesaf eu gwisgo i gyd.
- Os oes mwy nag un person yn chwarae, mae’n mynd i ben draw’r ystafell a thynnu’r dillad.
- Yna mae’r person nesaf yn nôl y dillad a’u gwisgo.
- Gwnewch hyn nes bydd pawb wedi gwisgo a thynnu’r dillad.
- Cofia amseru faint o amser mae’n cymryd.
- Chwaraewch eto i geisio gwella eich amser!

## “Mynd i Landybie heb ddweud ‘Ie’”

Mae angen 2 chwaraewr i chwarae’r gêm.

- Mae un person yn gofyn cwestiwn i’r llall.
- Dydy’r chwaraewr arall ddim yn cael ateb ‘ie’ neu ‘nage’ i’r cwestiwn – rhain iddo feddwl am ffordd arall o ateb.

Fel hyn: Cwestiwn: “Dy siwmper di ydy hon?”
Ateb cywir: “Fy siwmper i ydy hon.”

- Os mai’r ateb ydi “ie” neu “nage”, mae’r chwaraewr wedi methu.
- Wedyn mae’r un sydd wedi methu yn gofyn cwestiynau i’r chwaraewr arall.
- Pa un o’r chwaraewyr fydd yn llwyddo i ateb y nifer fwyaf o gwestiynau heb ddweud ‘ie’ neu ‘nage’? Cofiwch gadw’r sgôr.